Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/LG/2862/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Hydref 2018

Annwyl Mike

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Hydref yn dilyn ein sesiwn graffu ar 4 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth.

Ardoll Cig Coch

Yn atodedig ceir copi o fy llythyr dyddiedig 12 Medi at y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ynghylch y Bil Amaeth.

Capasiti ac arbenigedd Brexit

Mae angen cynyddol i ddatblygu capasiti ac arbenigedd ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd gan gynnwys datblygu polisi a rhoi systemau cyflenwi gweithredol newydd ar waith. Mae Brexit hefyd yn creu llawer o waith newydd mewn meysydd fel cywiro a diwygio deddfwriaeth yn ogystal â galw am allu newydd mewn meysydd fel polisi gwledig, amgylcheddol a masnach a fydd yn ein galluogi i weithredu'n llwyddiannus mewn byd ar ôl Brexit. Mae'r gwaith pontio hwn yn gymhleth ac yn symud yn gyflym.

Mae gwaith Brexit yn effeithio ar dimau ar draws y portffolio ac mae nifer o'r staff presennol yn canolbwyntio llawer iawn o'u hamser ar waith sy'n ymwneud â Brexit. Tan yn ddiweddar, rydym wedi rheoli'r gwaith heriol hwn gyda'r adnoddau ychwanegol lleiaf posibl, yn bennaf drwy symud nifer o gydweithwyr profiadol o fewn y portffolio i rolau sy'n ymrwymedig i Brexit. Rydym wedi creu dwy isadran newydd sy'n gysylltiedig â Brexit sydd wedi'u staffio gyda swyddogion o rolau eraill ar draws y portffolio, sef Is-adran Ymadael â'r DU i gydgysylltu'r amrywiaeth o waith Brexit ac arwain yr ymgysylltiad â Llywodraeth y DU ar fframweithiau (26 o swyddi) ac Is-adran Diwygio Rheoli Tir sy'n arwain ar y gwaith o ddiwygio'r cymorth ffermio a amlinellir yn "Brexit a'n Tir" (10 o bobl). Rydym wedi gwneud

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaith recriwtio allanol ac wedi sicrhau secondeion o adrannau a sefydliadau eraill y llywodraeth, sydd wedi ychwanegu 44 o bobl ychwanegol, sy'n bennaf yn llenwi rolau ar gytundebau tymor sefydlog ac wedi ychwanegu capasiti at dimau ar draws y portffolio; ymunodd y mwyafrif o'r staff newydd hyn y sefydliad ym mis Medi a Hydref.

Yn ddiweddar, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cytuno ar gyllideb rhaglen wedi'i chlustnodi o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Gwasanaethau a Gweinyddu Canolog i ariannu 195 o swyddi tymor sefydlog ychwanegol ar draws Llywodraeth Cymru i'n cynorthwyo i reoli'r negodiadau o fewn y DU, paratoi ar gyfer goblygiadau gweithredol gadael yr UE a datblygu fframweithiau cyffredinol ar ôl gadael yr UE. Bydd fy adnoddau portffolio yn talu am 144 o'r swyddi hyn o blith cyfanswm o 195.

Darparwyd yr arian ychwanegol hwn o'r £20.7 miliwn o arian canlyniadol sy'n gysylltiedig â Brexit o Drysorlys y DU a gadarnhawyd yn ddiweddarach eleni; fe'i dyrannwyd ar sail amser cyfyngedig ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 yn unig.

Cyfnod Adnoddau	**Nifer y Staff**	**Cost Flynyddol Amcangyfrifiedig**	**Ffynhonnell Ariannu**
Is-adran Ymadael â'r UE	26	£1.400m	Cyllideb Weinyddol Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Dan arweiniad cychwynnol Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig	44	£1.800m	Cyllideb Weinyddol Ganolog
Recriwtio a Arweinir yn Ganolog	144	£7.400m	Canolog wedi'i glustnodi

Bydd blaenoriaethu sut rydym yn dyrannu ein hadnoddau yn golygu y byddwn yn gorfod gwneud penderfyniadau a chytundebau anodd, a bydd yn rhaid inni reoli'n ofalus iawn y risgiau cyfatebol i'r ddarpariaeth fusnes dros y ddwy flynedd nesaf. Sefydlwyd strategaeth adnoddau i gydbwyso'r blaenoriaethau, y risgiau a'r pwysau cyllidebol.

Bydd rolau arweiniol Brexit hanfodol yn cael eu llenwi gyda'n pobl fwyaf profiadol sydd â'r sgiliau gorau. Fodd bynnag, mae maint yr her yn golygu y bydd angen i gydweithwyr uwch sy'n perfformio tasgau uwch mewn Bandiau Gweithredol gymryd rolau arweiniol sydd â blaenoriaeth cyn gynted â phosibl.

Bydd nifer y cydweithwyr uwch profiadol sy'n symud i'r swyddi Brexit hyn sy'n flaenoriaeth yn creu heriau ar gyfer gweddill fy mhortffolio busnes yn ogystal â blaenoriaethau eraill ar draws Llywodraeth Cymru. Byddaf yn sicrhau y bydd y rolau arweiniol hanfodol hyn ar gyfer busnes sy'n flaenoriaeth i'r llywodraeth yn cael eu diogelu.

O ran y rolau is, ar lefel Band Rheoli a Chymorth Busnes, byddwn yn defnyddio cyfuniad o recriwtio ochrol mewnol, benthyciadau o rannau eraill o wasanaeth sifil y DU a rhywfaint o recriwtio tymor sefydlog allannol.

Bydd y Pwyllgor Gweithredol, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a darparu adnoddau ar gyfer Brexit i sicrhau bod y penderfyniadau ynghylch Brexit yn cyd-fynd â'n hamcanion ar gyfer y gweithlu, ac nad yw'n peryglu ein fforddiadwyedd tymor hwy a'n gallu i ddarparu rhaglenni hanfodol Llywodraeth Cymru.

Datgymhwyso paragraff 6.2 TAN 1

Bydd penderfyniad ynghylch a ddylid ailgynnwys y paragraff hwn yn cael ei wneud fel rhan o arolwg llawn o ddarparu tai drwy'r system gynllunio a lansiais ar 18 Gorffennaf gyda 'cais am dystiolaeth'. Byddaf yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

Mynd i'r afael â gwastraff bwyd

Mae fy swyddogion yn yr Is-adran Bwyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sector bwyd masnachol drwy ein rhwydwaith clwstwr o dros 450 o fusnesau ynghylch effaith gwastraff bwyd o fewn y sector. Yn ogystal, mae Arloesi Bwyd Cymru yn arwain ar feysydd newydd o ymgysylltu â busnes o fewn y sector hwn.

Rydym hefyd yn ariannu WRAP Cymru sy'n rheoli cytundeb Courtauld 2025 yng Nghymru a hefyd wedi datblygu cymorth i fusnesau i leihau gwastraff bwyd a bod yn arloesol yn y defnydd o wastraff bwyd.

Mae cytundeb Courtauld yn dod â sefydliadau ynghyd ar draws y system fwyd i leihau'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ein bwyd a'n diod un rhan o bump dros 10 mlynedd. Bydd Courtauld 2025 yn chwarae rhan allweddol mewn cyflawni cynnig Llywodraeth Cymru i haneru gwastraff bwyd erbyn 2025, yn unol ag Amcan Datblygu Cynaliadwy 12.3 y Cenhedloedd Unedig. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'n strategaeth fwyd arfaethedig a ddiweddarwyd. Mae cytundeb Courtauld 2025 yn anelu at

- ymgorffori meini prawf newydd mewn prosesau dylunio, prynu a chyrchu,
- gwneud y gorau o'r gadwyn gyflenwi gyflawn i gynhyrchu mwy gyda llai,
- cynorthwyo pobl i gael mwy o werth o'r bwyd a'r ddiod maent yn eu prynu, a
- chanfod dulliau arloesol o wneud y defnydd gorau o wastraff a gweddillion.

Mae WRAP Cymru wedi cynhyrchu canllaw ar gyfer busnesau o wahanol feintiau a fideo o'r enw 'Reshaping the Food Supply Chain' sy'n cofnodi uchelgais ar y cyd holl lofnodwyr Courtauld 2025 a'u brwdfrydedd ynghylch adeiladu cadwyn fwyd a diod sy'n fwy gwydn a chynaliadwy ac sy'n dda i fusnes.

Byddwn yn ymgynghori y gwanwyn nesaf ar ein targed i leihau gwastraff bwyd fel rhan o'n harolwg o strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

Cofion

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Amg